**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL EUR-04-02(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 12 Mehefin 2002 |
| **Amser:** | 9.30am |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

**Aelodau**

| | |
|---|---|
| Rhodri Morgan (Cadeirydd) | Gorllewin Caerdydd |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Ieuan Wyn Jones | Ynys Môn |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Gwahoddedigion Sefydlog**

| | |
|---|---|
| Jos Gallagher | Cyfarwyddwr, Canolfan Ewropeaidd Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gary Davies | Pennaeth, Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Phil Bird | Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Jackie Brown | Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Des Clifford | Pennaeth Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel |
| Howell Rees | Clerc y Pwyllgor |
| James Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Adroddiad y Cadeirydd**

Papur: EUR-04-02(p.1)

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Nicholas Bourne, Tom Middlehurst, Jonathan Morgan, Glenys Kinnock, Eluned Morgan, Jill Evans, Eurig Wyn, y Cynghorydd Jon Huish, Rose D'Sa a Catherine Eva.

1.2 Amlygodd y Cadeirydd rai materion yn ychwanegol i'w adroddiad ysgrifenedig:

- Anfonodd Llysgennad Denmarc ei ymddiheuriadau i'r cyfarfod. Fodd bynnag, byddai'r Cynghorydd Economaidd o'r Llysgenhadaeth yn Nenmarc, Erik Vilstrup Lorenzen, yn mynychu cyfarfod y pwyllgor ar 10 Gorffennaf er mwyn trafod blaenoriaethau Llywyddiaeth Denmarc o Gyngor yr Undeb Ewropeaidd.
- Bwriedir gwahodd Peter Hain, cynrychiolydd Llywodraeth y DU ar Gonfensiwn Dyfodol Ewrop i fynychu cyfarfod yn ystod tymor yr hydref **(pwynt gweithredu).**
- Byddai'r Cadeirydd yn gwahodd Gisela Stuart AS, un o gynrychiolwyr senedd y DU ar y Confensiwn i gyfarfod nesaf y pwyllgor **(pwynt gweithredu).**
- Byddai adroddiad Syr John Gray ar Ganolfan Ewropeaidd Cymru (WEC), a oedd i fod i gael ei gyhoeddi ar 10 Mehefin, nawr yn cael ei gyflwyno i Fwrdd WEC ar 17 Mehefin.

1.3 Gwnaeth yr aelodau'r pwyntiau canlynol wrth drafod adroddiadau llafar ac ysgrifenedig y Cadeirydd:

- Ar ymweliad â Brwsel yn ddiweddar, cyfarfu'r Cadeirydd â staff WEC er mwyn amlinellu pwysigrwydd gwneud penderfyniad ar ddyfodol WEC cyn toriad yr haf. Cytunodd y Cadeirydd gynnwys eitem ar WEC ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y pwyllgor **(pwynt gweithredu).**
- Roedd presenoldeb yr Alban ym Mrwsel yn cynnwys Swyddfa Weithredol yr Alban ac Europa yr Alban. Rhoddodd y swyddfeydd hyn y gallu i'r Alban ddylanwadu ar benderfyniadau Ewropeaidd. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd Senedd yr Alban yn teimlo bod y trefniadau hyn yn rhoi digon o gymorth i Aelodau. Byddai'n bwysig bod gan bob un o Aelodau'r Cynulliad gyfleusterau ym Mrwsel mewn model Cymreig ar gyfer y dyfodol.
- Diolchodd y pwyllgor i Eluned Morgan ASE am drefnu ymweliad y Comisiynydd Reding ag Eisteddfod yr Urdd. Yr Urdd yw'r wyl ieuenctid fwyaf yn Ewrop ac mae ei chyfraniad i Gymru yn bwysig. Cytunodd y pwyllgor ei bod hi'n bwysig codi proffil ymweliadau comisiynwyr â Chymru.
- Cyhoeddodd Rhodri Glyn Thomas ei fod yn aelod o fwrdd y cyfarwyddwyr ar gyfer cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant 2008. Roedd cais Caerdydd yn cynrychioli natur ddiwylliannol amrywiol Cymru. Byddai'n rhaid i Ewrop dderbyn y cais cyn y byddai Llywodraeth y DU yn penderfynu ar yr ymgeisydd llwyddiannus. Byddai Llywodraeth y DU yn ystyried barn panel o feirniaid dan gadeiryddiaeth Syr Jeremy Issacs. Anogwyd y pwyllgor ac Aelodau'r Cynulliad i wneud popeth o fewn eu gallu i godi ymwybyddiaeth o gais Caerdydd er mwyn iddo lwyddo.

**Eitem 2: Trafodaeth gydag Aelod o'r pwyllgor Datblygu Economaidd**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Christine Chapman i siarad â'r pwyllgor ynglyn â gwaith y Pwyllgor Datblygu Economaidd (EDC) mewn perthynas ag Ewrop.

2.2 Dywedodd Christine Chapman fod yr Undeb Ewropeaidd yn dylanwadu ar bron pob agwedd ar yr economi, er bod y mwyafrif o'r cyfarwyddebau a'r rheoliadau yn gymwys ledled y DU gyfan ac felly nid oedd y pwyllgor yn treulio llawer o amser arno. Y prif fater Ewropeaidd a oedd o bwys i'r pwyllgor ar hyn o bryd oedd gweithredu'r cronfeydd strwythurol. Wrth i raglenni cronfeydd strwythurol ddatblygu, fe'u harchwiliwyd gan y pwyllgor ac yna gwnaed cynlluniau i fonitro'u perfformiad. Darparwyd adroddiad ar lafar gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Monitro Perfformiad (PMC) amlygu'r datblygiadau o dan bob rhaglen, a Chadeiriwyd Amcan 1 y PMC gan Christine Chapman ei hun. Bu'r pwyllgor hefyd yn monitro cynnydd rhaglenni eraill, fel Equal, Leader ac INTERREG, er bod y rhain yn llai a heb eu datblygu'n llawn ar hyn o bryd. Roedd gan y pwyllgor hefyd ddiddordeb yn nyfodol cronfeydd strwythurol, canlyniadau ehangu a chydlynu'r Undeb Ewropeaidd (UE).

2.3 Y prif faes arall lle y cafodd yr Undeb Ewropeaidd effaith ar y pwyllgor oedd mewn perthynas â chymorth i fusnesau. Roedd y pwyllgor yn awyddus i weld mathau o gymorth sy'n fwy hyblyg a haws cael gafael arnynt yn cael eu datblygu ar gyfer busnesau bach yng Nghymru. Bu'r pwyllgor hefyd yn pwyso i gael cymhorthion gweithredu yn yr ardaloedd o Gymru sydd â'r angen mwyaf ac roedd yn siomedig mai dim ond ychydig o gynnydd a

wnaed yn y cyswllt hwn. Nid oedd gan y pwyllgor broses ffurfiol er mwyn sicrhau bod rhaglenni'r UE sy'n effeithio ar fusnesau yng Nghymru wedi'u cynnwys yn ei raglen ond er hynny cafwyd adroddiad gan y Gweinidog Datblygu Economaidd ym mhob pwyllgor i amlygu materion newydd a materion sy'n dod i'r amlwg. Derbyniodd y pwyllgor hefyd adroddiadau o bryd i'w gilydd ar faterion penodol oedd o bwys i aelodau.

2.4 Gwnaed y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Roedd hi'n bwysig cadw a datblygu cyfathrebu rhwng y pwyllgorau oherwydd pwysigrwydd y cronfeydd strwythurol i Gymru. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol er mwyn sicrhau y gellid monitro unrhyw newidiadau i reolau a fyddai'n effeithio ar raglenni cronfeydd strwythurol. Gallai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru egluro pwyntiau penodol a godwyd mewn pwyllgorau Datblygu Economaidd.
- Hoffai'r Pwyllgor Datblygu Economaidd archwilio cymhorthion gweithredu taleithiol ar lefel Ewropeaidd.
- Awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor Datblygu Economaidd (EDC) edrych ar reoliadau'r Undeb Ewropeaidd ar farchnadoedd llafur hyblyg a hawliau gweithwyr rhan-amser er i'r pwyllgor gydnabod bod gan yr EDC agenda lawn eisoes. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd cyfraith cyflogaeth yn fater a ddatganolwyd, ac mai'r Cyngor Partneriaeth Busnes fyddai'r fforwm gorau i drafod y mater pe byddai pryderon sylweddol yng Nghymru. Nodwyd bod cangen Cymru o Gyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain yn mynychu cyfarfodydd EDC yn rheolaidd a gobeithiwyd y byddai Wales TUC Cymru yn mynychu cyfarfod yn yr hydref.
- Roedd hi'n bwysig cyfeirio materion a drafodwyd yn y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol i bwyllgorau pwnc ac yn yr un modd dylai'r pwyllgorau pwnc gyfeirio materion o ddiddordeb i'r pwyllgor hwn. Gallai Clerciau'r Pwyllgorau hwyluso'r broses hon.
- Cytunodd Christine Chapman i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar y materion a godwyd yn y cyfarfod **(pwynt gweithredu).**

**Eitem 3: Dyfodol Cronfeydd Strwythurol**

Papur: EUR-04-02 (p2)

3.1 Cyflwynodd Jackie Brown y papur, a oedd yn rhoi adroddiad i'r aelodau ar y gynhadledd dechnegol ddiweddar ar ddyfodol polisi rhanbarthol yr UE. Y gynhadledd hon oedd y cyntaf o dri digwyddiad yr oedd y Comisiwn yn eu trefnu a chynhelir sesiynau yn y dyfodol ar adnoddau dynol (yn ddiweddarach yn 2002) a symleiddio (ar ddechrau 2003). Bwriedir cyhoeddi trydydd adroddiad ar gydlyniad ar ddiwedd 2003 a disgwyliwyd rheoliadau drafft ar gronfeydd strwythurol ar gyfer y cyfnod ôl-2006 yn 2004. Yn y gynhadledd, a fynychwyd gan ddau o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, roedd y Comisiwn yn awyddus i gynrychiolwyr drafod syniadau yn hytrach na chanolbwyntio ar faterion ariannol. Cyflwynodd y Comisiynydd Barnier syniadau newydd yn y gynhadledd ar gymorth i ranbarthau nad oedd yn gymorth Amcan 1, a fyddai'n cynnwys dethol o blith amrywiaeth o gymorth.

Gall y detholiad hwn gynnwys mentrau trefol, a fyddai angen ystyriaeth fanwl gan randdeiliaid Cymreig, a chymorth ar gyfer rhaglenni cydweithio rhyngwladol yn yr un modd ag INTERREG lll B. Cafwyd trafodaeth hefyd ar gytundebau tridarn a chysylltiadau rhanbarthol gyda Brwsel yn y gynhadledd.

3.2 Gwnaed y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Mynegwyd pryder na ddylai Cymru fod ar eu colled o gymharu ag ardaloedd trefol yn Lloegr pe sefydlai'r Comisiwn raglenni cronfeydd strwythurol ar gyfer ardaloedd trefol.
- Trafodwyd y mater o wrthod polisi rhanbarthol a allai fynd yn groes i les Cymru. Dywedodd y Cadeirydd nad cynnig newydd oedd hwn a'i fod yn bwysig bod Cymru yn datgan ei sefyllfa'n glir.
- Roedd rhaglenni cronfeydd strwythurol yn debyg i gontractau tridarn yn yr ystyr iddynt gael eu cytuno rhwng y rhanbarthau a'r Comisiwn, tra'n gweithredu o fewn fframwaith genedl-wladwriaeth.
- Croesawodd y Comisiwn awgrymiadau ar sut i symud ymlaen gyda'r amrywiaeth er bod yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI) wedi gwneud cais am gynigion mwy cadarn gan y Comisiwn yn y gynhadledd. Byddai'r DTI yn trafod unrhyw safbwynt yn y DU ar ddyfodol y cronfeydd strwythurol gyda'r Cynulliad cyn eu cyflwyno i'r Comisiwn.
- Byddai ystadegydd y Cynulliad yn briffio'r pwyllgor Datblygu Economaidd ar ddargyfeiriadau rhanbarthol mewn cynnyrch mewnwladol crynswth a gallai fod o fudd gwahodd aelodau'r pwyllgor hwn i'r sesiwn.
- Y bobl orau i ateb cwestiynau ar symleiddio cronfeydd strwythurol fyddai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.
- Bu Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu cynigion ar gyfer digwyddiad yng Nghymru i hyrwyddo diddordeb yn INTERREG lll B. Byddai unrhyw ddigwyddiad mawr yn cael ei drefnu ar y cyd â Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, a fu'n rheoli cyfranogiad y DU yn y rhaglenni hyn.
- Gwnaed cais gan yr aelodau am rybudd ymlaen llaw o'r dyddiad ar gyfer seminar Llywodraeth y Cynulliad ar gronfeydd strwythurol, y bwriedir ei gynnal yn yr hydref.

**Eitem 4: Adroddiad ar drydydd cyfarfod y Gweithgor ar Ehangu**

Papur: EUR-04-02(p.3)

4.1 Cyflwynodd Phil Bird y papur i'r pwyllgor. Cynhyrchodd y Gweithgor Ehangu gynllun gweithredu yn amlinellu'r gwaith parhaol yr ymgymerwyd ag ef ar gyfer ymrwymiad Cymru yn y dyfodol gyda'r rhanbarthau a'r taleithiau a nodwyd mewn trafodaethau cynharach. Byddai'r cynllun gweithredu yn gweithredu am 12 mis ac yn cryfhau cysylltiadau presennol Cymru. Roedd y trafodaethau mwyaf datblygedig yn cymryd lle ar hyn o bryd gyda Silesia yn y gobaith y gellid llofnodi Memorandwm Dealltwriaeth erbyn mis Medi neu fis Hydref.

4.2 Gwnaed y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Roedd yr Alban wedi sefydlu cysylltiadau gydag Estonia er bod y Cynulliad o hyd yn gallu dilyn y llwybr tuag at efeillio hwn.
- Roedd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn gyfrwng sefydledig a oedd yn darparu cysylltiad da â Malta a Cyprus.
- Ymgymerodd Llywodraeth y Cynulliad â rhywfaint o waith ymchwil rhagarweiniol ar ranbarthau Gorllewin Pannon a Moravia.
- Roedd y Cynulliad yn gobeithio gefeillio gyda rhanbarth a oedd yn debyg o ran diwydiant a rhanbarth a oedd yn meddu ar wahanol nodweddion y gallai Cymru ddysgu ohonynt. Byddai Silesia yn agor swyddfa ym Mrwsel ym mis Medi.

**Eitem 5: Adroddiad Blynyddol**

Papur: EUR-04-02 (p4)

5.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr Adroddiad Blynyddol, a gyflwynwyd ar 10 Mehefin ac a gâi ei ystyried yn y drafodaeth lawn ar faterion yn ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd ar 18 Mehefin. Dywedodd y cadeirydd na ddylid dehongli paragraff 2.19 o'r adroddiad fel beirniadaeth ar swyddogion mewn unrhyw ffordd. Ni fu'n bosibl cynhyrchu dadansoddiad eleni a oedd yn debyg i'r un a gafwyd y llynedd oherwydd y newid yn fformat rhaglen y Comisiwn. Penderfynodd y Senedd Ewropeaidd y dylai'r Comisiwn amlinellu saith blaenoriaeth yn hytrach na chynhyrchu rhestr fwy cynhwysfawr o ddeddfwriaeth fel y gwnaethant mewn blynyddoedd blaenorol.

**Eitem 6: Adroddiadau gan Wahoddedigion Sefydlog**

Papurau: EUR-04-02(p5) ac EUR-04-02(p6)

6.1 Cyflwynodd Rosemary Butler adroddiad ar waith y Pwyllgor Rhanbarthau (COR):

- Rhoddodd Swyddogion y Cynulliad gyflwyniad i'r comisiwn COR ar yr amgylchedd a chafwyd cyfraniad gan y Cymry ar eu barn ar ieuenctid a phobl ifanc yn y cyfarfod llawn diwethaf.
- Ymgorfforwyd dau bapur Ewropeaidd ar ryddid i weithio ac ieithoedd lleiafrifol yn ystyriaethau'r Adolygiad ar yr Iaith Gymraeg.
- Byddai Confensiwn Dyfodol Ewrop yn archwilio sut y cynrychiolir rhanbarthau yn yr Undeb Ewropeaidd. Dywedodd y cadeirydd fod yna ddwy feddylfryd ar COR. Roedd un am roi gwedd newydd iddo er mwyn rhoi mwy o ddylanwad iddo. Roedd y llall am ei ddisodli gan fframwaith newydd oherwydd na fu'n llwyddiannus.
- Byddai'n bwysig sefydlu ymagwedd Gymreig gydlynol tuag at y COR rhwng cynrychiolwyr y Cynulliad a llywodraeth leol. Roedd y sesiynau briffio a ddarparwyd gan swyddogion y Cynulliad a Chanolfan Ewropeaidd Cymru (WEC) yn ddefnyddiol iawn ar gyfer sesiynau COR.

6.2 Nododd y pwyllgor adroddiad chwarterol WEC a’r adroddiad gan Eluned Morgan ASE a Glenys Kinock ASE.

6.3 Roedd y pwyllgor yn pryderu ynghylch adroddiadau’r wasg oedd yn nodi bod y Comisiwn yn ystyried newidiadau mawr i’r diwydiant pysgota. Cytunodd y pwyllgor i ystyried y mater hwn yn y cyfarfod nesaf **(pwynt gweithredu).**

**Eitem 7: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Papur: EUR-03-02(min)

7.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol. Byddai cyfarfod nesaf y pwyllgor ar 10 Gorffennaf 2002.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.36am.